

Arweinlyfr Goroesi'r System Cyfiawnder Troseddol

Cymorth i bobl sydd â phroblemau iechyd meddwl
neu gaethiwed sy'n dod i gysylltiad gyda'r system
cyfiawnder troseddol



www.adferiad.org

Mae Adferiad Recovery yn sefydliad corfforedig elusennol ac wedi cofrestru yng Nghymru a Lloegr

Rhif Cofrestredig: 2751104

Rhif Elusen: 1039386

Cynnwys

Cyflwyniad.....	2
Ataliaeth.....	4
Yr heddlu a'r gyfraith.....	6
1. Y Ddeddf Iechyd Meddwl.....	6
2. Deddfau Cyffuriau.....	8
3. Stopio a Chwilio.....	10
4. Arestio.....	12
5. Oedolyn Priodol.....	14
Dedfrydu.....	18
1. Ymddangosiad Cyntaf yn y Llys.....	18
2. Dedfrydu.....	20
Yn y Carchar.....	22
Rhyddhau.....	27
Adferiad.....	30
Cysylltiadau Defnyddiol.....	32
Amdan Adferiad.....	33
Cysylltu Adferiad: clawr cefn	

Cyflwyniad

Llywio'r system cyfiawnder troseddol

Mae'r Arweinyfr Goroesi hwn wedi ei ddylunio ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl difrifol neu broblemau caethiwed (neu'r ddau) sydd mewn trafferth gyda'r gyfraith neu mewn cysylltiad â'r asiantaethau cyfiawnder troseddol – yn enwedig yr heddlu – sy'n ymyrryd am eu bod yn credu eich bod yn sâl neu'n wynebu risg. Bydd yr arweinyfr yn cwmpasu pob agwedd o'r broses ac yn egluro eich hawliau a'ch cyfrifoldebau ar hyd y ffordd.

Mae rhai o'r materion a gynhwysir yn yr arweinyfr hwn yn benodol ar gyfer materion iechyd meddwl neu gaethiwed, ond cynigiwn eich bod yn gwirio'r arweinyfr i gyd i weld beth sy'n berthnasol i'ch amgylchiadau chi.

Yn yr arweinyfr hwn, edrychwn ar y gwahanol gamau y gall pobl fynd drwyddynt wrth iddynt fynd drwy'r system cyfiawnder troseddol, fel a ganlyn:

Ataliaeth – Yr Heddlu a'r gyfraith – Dedfrydu – Carchar – Rhyddhau – Adferiad

Er hynny, mae'n bwysig cofio nad yw'r mwyafrif o bobl sy'n mynd i mewn i'r system yn mynd i'r carchar, hyd yn oed os ydynt wedi eu cael yn euog o drosedd.



Nid yw'r system cyfiawnder troseddol wedi ei llunio i ddelio ag anghenion pobl sydd â phroblemau salwch meddwl neu gaethiwed. Bydd gan yr asiantaethau y dewch ar eu traws rhywfaint o brofiad yn y maes hwn ond nid dyma yw eu hunig swyddogaeth. Mae o fudd i chi (cymaint ag y gallwch) i fod yn glir ynghylch eich problemau iechyd meddwl neu gaethiwed ac unrhyw driniaeth a gofal yr ydych eu hangen. A peidiwch â meddwl y gwaethaf: profiad Aelodau Adferiad yw fod yr heddlu a staff eraill yr asiantaethau cyfiawnder troseddol yn gymwynasgar i chi fel arfer, yn enwedig os byddwch yn egluro eich problemau iddynt.



Ataliaeth

Argymhellion i gadw'n ddiogel ac i osgoi problemau cyfreithiol

Gall pobl sydd â phroblemau iechyd meddwl neu gaethiwed ddod yn ddiodefwr trosedd yn aml, ond mae'r arweinlyfr hwn wedi ei ddylunio'n bennaf i helpu'r rhai sy'n dod i gysylltiad ag asiantaethau cyfiawnder troseddol o ganlyniad i ymddygiad sy'n deillio o'u problemau iechyd meddwl neu gaethiwed, neu am eu bod yn mynd i drafferthion gyda'r gyfraith.

Yn amlwg, mae er budd unrhyw un i beidio cael i mewn i drafferth yn y lle cyntaf. Dyma rai o'r ffyrdd eraill i chi allu osgoi hyn:



- Cael cymorth gyda phroblem iechyd meddwl neu gaethiwed mor fuan â phosibl yw'r dull mwyaf effeithiol i osgoi cael i mewn i drafferth gyda'r gyfraith. Siaradwch gyda'ch meddyg teulu neu weithiwr proffesiynol iechyd arall neu geisio cymorth gan ffrind neu aelod o'r teulu i wneud hyn. Ac unwaith rydych mewn cysylltiad gyda'r gwasanaethau gefnogaeth parhau i gynnal y cysylltiad hwnnw.
- Osgowch ddefnyddio cyffuriau anghyfreithlon (neu alcohol mewn modd amhriodol); ac osgoi gamblo a gweithgareddau caethiwus eraill os ydych chi'n agored i niwed o'r rhain. Gall meddu ar gyffuriau anghyfreithlon arwain at arestio ac euogfarn droseddol wrth gwrs; gall camddefnydd neu ddefnydd gormodol o gyffuriau ac alcohol arwain i golli hunanreolaeth a all arwain i ymddygiad troseddol; gall caethiwed hefyd arwain rhai pobl i gyflawni troseddau i gael arian.



- Dylid cymryd gofal arbennig i beidio ymwneud â chyflenwi cyffuriau anghyfreithlon. Mae hon yn drosedd ddifrifol iawn y mae rhai pobl yn syrthio i mewn iddi'n anfwriadol, er enghraifft drwy basio cyffuriau ymlaen i rhywun rydych yn eu hadnabod.
- Os ydych chi'n meddwl eich bod yn mynd yn sâl o ganlyniad i salwch meddwl neu gaethiwed, gwnewch yn siwr eich bod yn dweud wrth eich meddyg / gofalwr / gweithiwr cymdeithasol / seiciatrydd mor fuan â phosibl iddynt allu eich helpu i reoli hyn.
- Peidiwch â stopio cymryd eich meddyginiaeth heb drafod hyn gyda'ch meddyg neu seiciatrydd
- Osgowch lefydd ble gallech gael eich herlid, eich bwlio neu eich harwain i drwbwl gan bobl eraill (er enghraifft ardaloedd ble mae pobl

yn treulio'u hamser yn yfed neu'n cymryd cyffuriau)

- Ceisiwch ddatrys dadleuon ac anawsterau'n bwyllog. Os oes angen, ceisiwch am gymorth gan rhywun di-dduedd i ddatrys y broblem
- Os ydych chi'n cael anawsterau wrth reoli eich arian, gofynnwch am gymorth gan weithiwr cymdeithasol neu'r Citizen's Advice Bureau



Yr heddlu a'r gyfraith

Beth i'w wybod am weithdrefnau'r heddlu a'ch hawliau chi

Os byddwch mewn sefyllfa ble mae'r heddlu yn dod atoch oherwydd eich gweithrediadau neu ymddygiad, mae'n bwysig cydweithredu a gwrandao ar yr hyn y maent yn ei ddweud. Defnyddiwch yr arweinlyfr hwn fel ffordd o sicrhau eich bod yn gwybod beth yw eich hawliau a'ch cyfrifoldebau.

Mae'r rhan fwyaf o bobl yn deall bod gan yr heddlu ddyletswydd gyffredinol i ymyrryd pan mae trosedd yn cymryd lle. Yn yr arweinlyfr hwn, rydym hefyd yn rhoi manylion am dri maes o'r gyfraith sy'n bwysig yng nghyd-destun salwch meddwl a chaethiwed.


1. Y Ddeddf Iechyd Meddwl

Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn ymwneud ag "anhwylder meddyliol" difrifol ond gall hefyd fod yn berthnasol i bobl â phroblemau caethiwed ble mae'r meini prawf ar gyfer ymyrraeth yn cael eu bodloni.

Mae gan yr heddlu bwerau o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl i'ch cymryd i "le diogel" os ydynt yn credu eich bod yn dioddef o anhwylder meddyliol, a'u bod yn bryderus iawn am eich hiechyd neu am ddiogelwch eraill.

Mae gan yr heddlu'r pŵer i fynd i mewn i'ch cartref neu dŷ preifat arall, gyda meddyg a gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy, a mynd â chi i le diogel ond, cyn y gallant wneud hyn, mae'n rhaid iddynt gael gwarant gan ynad.

Os yw'r heddlu a gweithwyr proffesiynol iechyd meddwl yn mynd i mewn i'ch cartref, mae'n bwysig gofyn iddynt am gael gweld yr awdurdodiad gan yr ynad. Pan rydych wedi gweld hwn, ceisiwch gofio mai'r rheswm mae nhw yno yw am eu bod yn pryderu am eich iechyd, diogelwch a llesiant.



Mae'n annhebygol eich bod wedi gwneud unrhywbeth o'i le, ond efallai eich bod yn sâl ac ddim yn ymwybodol eich bod angen ychydig o help a chymorth.

Mae gan yr heddlu bwerau hefyd i fynd â chi o le cyhoeddus i le diogel (o dan adran 136) os ydych yn ymddangos i ymddwyn yn rhyfedd ac yn dangos arwyddion o fod yn sâl iawn. Gall yr heddlu ddefnyddio'r pŵer hwn os ydynt yn meddwl ei fod yn angenrheidiol er lles y person ei hun neu er mwyn diogelu eraill. Mae'n werth gwybod y gellir gwneud hyn mewn unrhyw le cyhoeddus neu le preifat, heblaw am annedd breifat (megis cartref preifat neu eu gardd eu hunain).

Un pwrpas sydd i'r pwerau hyn sydd gan yr heddlu – sef i greu y cyfle i chi i gael eich archwilio a'ch asesu gan feddyg a gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy er mwyn sicrhau bod gennych fynediad i'r gofal a'r driniaeth rydych eu hangen. Gellir eich cadw mewn "lle diogel" (y term a ddefnyddir o fewn y ddeddf) am hyd at 24 awr (gellir ymestyn hyn i 36 awr os teimlir nad yw'n bosibl i'ch asesu'n iawn oherwydd pryderon iechyd corfforol).

Unwaith rydych wedi cael eich asesu, gallai fod tri canlyniad:

1.

Cewch eich rhyddhau o'r lle diogel a'ch caniatáu i ddychwelyd adref, gobeithio gyda'r cymorth a'r gefnogaeth yr ydych eu hangen.

2.

Eich bod yn cytuno i gael eich derbyn i'r ysbyty ar sail gwirfoddol

3.

Cewch eich derbyn i'r ysbyty'n ormodol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl*

Cyngor Adferiad:

Ceisiwch gadw'n bwylllog a gofyn i'r heddlu a gweithwyr proffesiynol eraill i gysylltu â'ch teulu neu ofalwr, a ceisiwch hefyd sicrhau eu bod yn cymryd yr amser i egluro beth sy'n digwydd i chi.

**Mae hyn yn ymwneud yn bennaf gyda'r broses a elwir yn 'sectioning' sy'n golygu bod rhywun wedi mynegi pryder ynghylch eich iechyd meddwl a gallwch gael eich cadw yn yr ysbyty am hyd at 28 diwrnod, ond ni ellir ymestyn hyn (adran 2). Ond, os defnyddir adran 3 i ddiogelu eich diogelwch chi neu ddiogelwch eraill, gallech fod yn aros yn yr ysbyty am hyd at 6 mis.*

2. Deddfau Cyffuriau

Mae tri dosbarth o gyffuriau anghyfreithlon yng nghyfraith y Deyrnas Unedig, a all arwain i erlyniad sy'n arwain i ddirwy ac/neu garcharu ar euogfarn:

Dosbarth A

Yn cynnwys: cocên, crac, ecstasi, MDMA, heroin, LSD, methadon, crystal meth, madarch hud.

- Yr uchafswm dedfryd: 7 mlynedd am feddiant (oes am gyflenwi)

Dosbarth B

Yn cynnwys: canabis, barbitwradau, codin, cetamin, amffetamin.

- Uchafswm dedfryd: 5 mlynedd am feddiant (14 mlynedd am gyflenwi)

Dosbarth C

Yn cynnwys: steroidau anabolig, khat, BZT, tawelyddion mân a benzodiazepines

- Uchafswm dedfryd: 2 flynedd am feddiant (14 am gyflewni)


Yn 2016, crewyd y Ddeddf Sylweddau Seicoweithredol i gynnwys y dosbarth newydd o sylweddau a gyfeirir atynt yn aml fel 'anterthau cyfreithlon'. Mae'n diffinio sylweddau seicoweithredol fel unrhyw sylweddau sy'n gallu creu effaith seicoweithredol mewn person sy'n eu cymryd, sydd ddim eisioes yn sylwedd eithredig. Dywed adran 2 (2) o'r Ddeddf fod sylwedd yn creu effaith seicoweithredol mewn person os, drwy ysgogi neu iselhau system nerfol ganolog y person, ei fod yn effeithio ar weithrediad meddyliol neu gyflwr emosiynol y person.

Mae'r ddeddf hon yn ei gwneud yn drosedd i gynhyrchu, i gyflenwi neu i feddu gyda'r bwriad o gyflenwi sylweddau seicoweithredol. Mae hefyd yn darparu'r pwerau i'r heddlu i stopio a chwilio personau, cerbydau a llongau, i fynd i mewn i ac i archwilio eiddo (dan warrant) ac i gymryd y sylweddau hyn. Mae hon eto'n drosedd a all arwain i'r carchar.

Ond, yn ymarferol, mae llawer o bobl sy'n cael eu dal gyda chyffuriau yn eu meddiant ddim yn cael eu herlyn, a ble maent yn cael eu herlyn bydd y troseddau hynny'n cael eu delio â hwy gan lysoedd anadon fel arfer. Ychydig o bobl sy'n cael eu barnu'n euog sy'n cael eu dedfrydu i'r carchar, ac mae'r mwyafrif o'r dirwyon yn £50 neu lai.

Yn aml, gall swyddogion yr heddlu ddefnyddio eu disgrisiwn ynghylch mân droseddau cyffuriau: os byddwch yn gwranddo yn ofalus ac yn gwrtais ar yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud, bydd hyn yn rhoi mwy o hyder iddynt i gymryd ymagwedd mwy anffurfiol; maent hefyd yn fwy tebygol o fod yn dawelach eu meddwl os ydych yn barod i roi'r gorau i ddefnyddio cyffuriau ac i geisio am driniaeth os mai dyma sydd ei angen. Mae'r heddlu'n defnyddio'r system rheoli data a gwybodaeth NICHE, ble gallent eich arwyddbostio i'r partneriaid neu elusennau perthnasol y maent yn gweithio gyda hwy ble gallent dracio eich cynnydd a monitro os ydych chi wedi mynychu eich apwyntiadau. Os yw hyn yn amod ar gyfer eich mechniaeth wedi i chi adael y ddalfa yna sicrhewch, os gwelwch yn dda, eich bod yn mynychu unrhyw apwyntiadau sydd wedi eu trefnu ar eich cyfer gyda sefydliadau allanol.

Noder y gallai yr ymddygiad a'r gweithrediadau sy'n deillio o gamddefnydd alcohol hefyd arwain i gysylltiad gyda'r heddlu – yn yr un modd, ymateb cwrtais a chydweithredol yw'r gorau.



Cyngor Adferiad:

Does neb eisiau cael eu harestio neu eu cyhuddo am droseddau cyffuriau a'r ffordd orau i osgoi hyn pan gewch eich herio gan yr heddlu yw i gadw'n bwylllog ac i wrando ar yr hyn sy'n cael ei ddweud – mae mwy o wybodaeth am y broses ffurfiol yn dilyn arestiad ar y dudalen nesaf. Ond ein cyngor cryf fyddai eich bod yn gweld cysylltiad gyda'r heddlu (beth bynnag yw'r canlyniad) fel "gair i gall" i wneud eich penderfyniad eich hun i osgoi cyffuriau anghyfreithlon ac i geisio triniaeth os ydych ei angen.

3. Stopio a Chwilio

Mae gan yr heddlu'r pŵer i stopio a chwilio pobl os os ydynt yn meddwl fod ganddynt sail resymol dros amheuaeth. Gall yr heddlu eich stopio a chwilio naill ai trwy ddefnyddio pŵer yr heddlu (amheuaeth, felly nid oes angen eich caniatâd), NEU fel arall gyda'ch caniatâd.

'Stopio' yw pan mae swyddog yn eich stopio ac yn gofyn i chi beth rydych yn ei wneud, ble rydych chi'n mynd, a beth rydych chi'n ei gario. Gall 'stopio a chwilio' gymryd lle os yw swyddog yn credu eich bod yn cario cyffuriau / arfau / eiddo wedi ei ddwyn, neu eitemau y gellid eu defnyddio i gyflawni gweithred o drosedd / terfysgaeth. Nid yw hyn yn golygu eich bod yn cael eich arestio.

Mae'n rhaid i'r swyddog sy'n eich stopio roi'r rheswm i chi pam eich bod wedi cael eich stopio, roi eu manylion i chi (yn cynnwys enw, rhif heddlu a'r orsaf) a chopi or ffurflen stopio a chwilio. Gallwch ofyn fod y swyddog sy'n eich chwilio o'r un rhyw a chi.



Cyngor Adferiad:

Oni bai eich bod yn glir bod yr heddlu'n torri'r rheolau, mae'n well cydweithredu'n bwylllog gyda 'stopio a chwilio' cyfreithlon.

Bydd hyn yn lleihau'r tebygolrwydd o ddwysáu'r sefyllfa a'i wneud yn fwy tebygol y bydd yr heddlu'n cael yr hyder i weithredu'n anffurfiol yn unig, hyd yn oed os oes trosedd mewn gwirionedd.

4. Arestio

Gall yr heddlu eich arestio gyda neu heb warant os ydynt yn amau eich bod wedi cyflawni trosedd. Mae gan yr heddlu'r pŵer i ddefnyddio 'grym rhesymol' i'ch arestio a chwilio (adran 32 PACE). Mae hyn yn lefel o rym sydd yn "ddim mwy na'r hyn sy'n hollol angenrheidiol" i gyflawni'r arestiad. Os nad ydych yn cydymffurfio neu'n gwrthsefyll yr arestiad, gallech fod yn cyflawni troseddau pellach megis gwrthsefyll arestiad neu ymosod ar weithiwr argyfwng; gallai hyn achosi i'r swyddogion ddefnyddio gradd uwch o rym ac i ychwanegu cyhuddiad ychwanegol i'ch cyhuddiad presennol. Os yw'r heddlu'n mynd y tu hwnt i'r lefel hwnnw o rym, efallai y byddent yn torri eich hawliau dynol.

Pan rydych yn cael eich arestio ac yn cyrraedd y ddalfa, os fydd gan yr heddlu unrhyw bryderon neu eu bod yn credu bod gennych eitem yn eich meddiant y gallech anafu rhywun yn gorfforol gydag ef (yn cynnwys chi eich hun), bydd yr heddlu yn eich archwilio (o dan adran 54 o PACE). Dylent

egluo pam ei fod yn angenrheidiol i'ch chwilio ac mae angen iddynt ei gynnal gyda pharch ac urddas. Bydd y chwilio'n cynnwys tynnu dillad allanol, siaced, het, menyg, ac esgidiau'n bennaf.

Mae noeth-chwilio yn chwilio sy'n cynnwys mwy na thynnu'r dillad allanol, yn cynnwys esgidiau. Mae PACE Côt 10 Atodiad A 10 yn datgan "ni all noeth-chwilio gymryd lle oni bai ei fod wedi ei ystyried yn angenrheidiol i dynnu gwrthrych na fyddai'r carcharor yn cael ei gadw a bod y swyddog yn ystyried yn rhesymol fod y carcharor, o bosibl, wedi cuddio gwrthrych o'r fath."

Pan cewch eich arestio ni allwch gael eich cloi i fyny'n amhenodol. Y rheol gyffredinol yw na ellir eich cadw yn nalfa'r heddlu am fwy na 24 awr heb gael eich cyhuddo ond gellir ymestyn hyn os rhoddir yr **awdurdodaeth* briodol**.



*Ystyr awdurdodaeth briodol:

Yn y lle cyntaf: gellir gwneud cais am ymestyniad 12 awr gan Uwcharolygydd y ddalfa. Bydd hyn yn cael ei ganiatáu os yw'r Uwcharolygydd yn credu bod yr archwiliad yn cael ei gynnal yn ddiwyd ac yn gyflym.

Yn yr ail le: Gall llys ynadon ymestyn eich arhosiad yn y ddalfa o 36 awr, ac yna ei ymestyn ymhellach o 24 awr oherwydd difrifoldeb yr achos, sy'n dod â'r uchafswm cyfanswm i 96 awr.

Pan rydych yn sefyll o flaen desg y ddalfa, bydd Sarsiant yn gofyn llawer o gwestiynau i chi (ar gyfer asesiad risg) ynghylch eich iechyd corfforol a meddyliol, i sicrhau eich bod yn ddigon ffit ac iach i gael eich cadw.

Ar yr adeg hwn, os ydych chi'n sâl (yn profi seicosis er enghraifft) gall yr heddlu ofyn i feddyg yr heddlu neu weithiwr proffesiynol iechyd meddwl i'ch archwilio i benderfynu os ydych chi'n ddigon da i gael eich cadw ac/ neu cwestiynu. Dyma'r adeg pan gall yr archwilydd meddygol ofyn i alw gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl cymeradwy er mwyn cynnal asesiad seiciatryddol. Os oes angen eich cymryd allan o'r broses cyfiawnder troseddol oherwydd eich salwch meddwl, bydd angen i seiciatrydd wneud y penderfyniad yma fel arfer.

Wedi i chi gael eich arestio mae gennych dri hawl sylfaenol:

1.

Yr hawl i gyngor cyfreithiol annibynnol yn rhad ac am ddim

2.

Yr hawl i hysbysu rhywun am eich arestio – perthynas neu ffrind fel arfer

3.

Yr hawl i ymgynghori â'r Côt Ymarfer (llyfryn yn ymwneud â phwerau a gweithdrefnau'r heddlu)



5. Oedolyn Priodol

Mae rôl yr Oedolyn Priodol yn amddiffyniad gorfodol, sy'n berthnasol i unrhyw un sydd yn nalfa'r heddlu sydd yn 'agored i niwed'. Mae'r diffiniad o 'agored i niwed' yn gymhleth, yn cynnwys nid yn unig pobl sy'n byw gyda salwch meddwl, anawsterau dysgu ac anabledau, ond hefyd rhai sy'n agored i niwed dros dro a sefyllfaol megis galar neu ymennydd niwlog yn dilyn sioc.

Mae pobl sy'n agored i niwed yn arbennig o dueddol i gael eu heffeithio gan y gofid a'r pwysau a achosir gan y profiad o'u harestio a'u cadw gan yr heddlu, ac mae'n rhaid cynnig 'oedolyn priodol' i bobl sydd mewn sefyllfaoedd o'r fath. Mae hwn/hon yn oedolyn cyfrifol sy'n annibynnol o'r heddlu a'i rôl yw i:

- Edrych ar ôl lles y person sy'n cael eu cadw.
- Eu helpu i ddeall beth sy'n digwydd a pham.
- Egluro gweithdrefnau'r heddlu ac i gynghori.
- I ddarparu gwybodaeth am hawliau a sicrhau bod y rhain yn cael eu hamddiffyn.
- Yn hwyluso cyfathrebu gyda'r heddlu.

Oes oes gan y Sarsiant unrhyw bryderon ar unrhyw adeg yn ystod eich arhosiad yn y ddalfa o ran risgiau i gyfranogaeth ym mhrosesau a gweithdrefnau'r ddalfa, gallent alw am Oedolyn Priodol i fod yno i'ch cefnogi a'ch tywys drwy'r broses o fewn y ddalfa. Noder, os gwelwch yn dda, y 'gallai' person sydd â phroblemau caethiwed difrifol fodloni'r un meini prawf ar gyfer bod yn agored i niwed ac, o bosib, cael y cynnig o Oedolyn Priodol i'w cefnogi drwy'r prosesau.

Mae gan yr heddlu'r hawl i'ch prosesu pan rydych wedi cyflawni trosedd sy'n golygu y byddant yn cymryd eich olion bysedd, ffotograffau a samplau DNA (swab ceg). Noder, os gwelwch yn dda, y gallant ddefnyddio grym rhesymol pan yn caffael y samplau hyn a'ch prosesu. Pan fydd yr heddlu yn eich cyfweld, byddant yn eich rhybuddio, yn gwirio eich dealltwriaeth o'r rhybuddiad ac yn eich hysbysu am holl oblygiadau diogelu data recordio'r cyfweiliad ar fideo (yn glywedol ac yn weledol). Bydd eich Oedolyn Priodol (os gofynnir / os yn berthnasol) yn eich cefnogi yn y cyfweiliad yn ogystal â thrwy'r prosesau eraill sy'n dilyn, yn cynnwys egluro'r deilliannau.

Mae nifer o ddeilliannau posibl pan mae'r heddlu wedi cwblhau eu hymchwiliad:



1. Dim gweithredu pellach

Ble mae'r heddlu'n penderfynu nad oes tystiolaeth ddigonol i erlyn, neu y byddai rhybudd yn ddigonol. Bydd y person yn cael eu rhyddhau a dylid eu hysbysu'n ysgrifenedig o'r penderfyniad hwn.



2. Rhybudd

Os nad yw er budd y cyhoedd i'ch erlyn, gall yr heddlu roi rhybudd ffurfiol i chi am eich ymddygiad.



3. Mechnïaeth

Yma bydd yr heddlu yn eich rhyddhau er mwyn cwblhau ymholiadau na ellid eu cwblhau tra roeddech yn y ddalfa; neu i dderbyn cyngor gan Wasanaeth Erlyn y Goron ble byddant yn gosod allan yr amodau ar gyfer eich mechnïaeth ac, os fyddech chi'n torri'r rhain, gallech gael eich arestio eto. Rhyddhawyd o dan ymchwiliad – sy'n golygu nad yw'r person dan fechnïaeth, ond mae'r heddlu'n parhau i ymchwilio i'r drosedd honedig a byddant yn hysbysu ynghylch y canlyniad unwaith y bydd yr ymchwiliad wedi ei gwblhau.




4. Cyhuddiad / Erlyniad

Dyma ble mae'r penderfyniad wedi ei wneud fod angen i'r achos fynd i'r llys. Adran y Llywodraeth sy'n gyfrifol am benderfynu ar gyhuddo ac erlyn achosion troseddol yng Nghymru a Lloegr yw Gwasanaeth Erlyn y Goron ('CPS'). Mae'n rhaid i'r CPS "erlyn achosion yn gadarn, yn deg ac yn effeithiol pan mae tystiolaeth ddigonol i ddarparu gobaith realistig o euogfarn a ble mae er budd y cyhoedd i wneud hynny".



5. Datrysiad y tu allan i'r llys

Dull yw hwn i ddatrys ymchwiliadau ar gyfer troseddwyr sy'n rhan o drosedd lefel-isel ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol. Mae datrysiadau y tu allan i'r llys yn anelu i leihau y risg o unigolion yn cael eu tynnu i mewn i'r system cyfiawnder troseddol ffurfiol pan nad oes unrhyw fudd i'r cyhoedd i'w herlyn



Dedfrydu

Deall y broses ddedfrydu

Os cewch eich gwysio ('summoned') neu eich cyhuddo gan yr heddlu a'ch rhyddhau o'r ddalfa, dylech weld cyfreithiwr mor fuan â phosibl. Gallech fod yn gymwys am Gymorth Cyfreithiol os na allech fforddio gwasanaethau cyfreithiwr. Mae hefyd yn dibynnu ar ffactorau megis pa mor debygol yw hi y gallech ennill yr achos.

Mae'r Comisiwn Gwasanaethau Cyfreithiol ('LSC') yn darparu cyngor a chynrychiolaeth gyfreithiol i bobl sy'n wynebu cyhuddiadau troseddol trwy'r Criminal Defence Service ('CDS'). Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yn www.clsdirect.org.uk neu ar 0845 3454345.



Mae pob achos troseddol, hyd yn oed y mwyaf difrifol, yn cychwyn yn y llys ynadon. Mae'r ynadon yn gwrandao ar y dystiolaeth ac (mewn achosion llai difrifol) yn penderfynu os yw'r cyhuddedig yn euog neu'n ddi-euog ac, ble'n briodol, yn penderfynu ar y ddedfryd.

Atgyfeirir y materion troseddol mwy difrifol gan y llys ynadon i Lys y Goron, sy'n delio gydag oedolion a phobl ifanc. Mae gan Llys y Goron farnwr sy'n llywyddu dros y treial a rheithgor o 12 person sydd wedi eu dewis o restr o'r holl bersonau hynny rhwng 18-70 oed sydd wedi eu cofrestru fel etholwyr.

1. Ymddangosiad Cyntaf yn y Llys

Os ydych chi'n mynychu'r llys oherwydd trosedd efallai y byddwch eisiau dod â ffrind gyda chi. Ewch ag unrhyw bapurau sydd gennych sy'n ymwneud â'ch achos gyda chi. Pan rydych yn cyrraedd, dywedwch wrth swyddog y llys ac wrth eich cyfreithiwr. Gwiriwch yr hysbysfwrdd oherwydd y bydd yn dangos



i chi ym mhle bydd eich achos yn cael ei glywed ac i ble mae angen i chi fynd.

Yn eich ymddangosiad cyntaf yn y llys ynadon bydd gofyn i chi bledio'n 'euog' neu'n 'ddi-euog' fel arfer. Os byddwch yn pledio'n euog bydd y llys yn gwneud cais am adroddiad cyn dedfrydu. Os byddwch yn pledio'n ddi-euog, bydd dyddiad yn cael ei osod ar gyfer eich treial.

Efallai y byddwch yn cael eich gyrru i'r carchar am gyfnod o amser (beth a elwir yn eich 'cadw yn y ddalfa'), yn cael mechniaeth, yn cael eich gorchymyn i ymddangos yn y llys, neu'n cael eich derbyn i'r ysbyty ar gyfer asesiad. Os

byddwch yn cael mechniaeth, gallai fod gydag amodau.

Os oes gennych gyflwr iechyd meddwl, gallai'r llys gytuno i oedi'r achos nes gellir caffael adroddiad seiciatryddol.



2. Dedfrydu

Os cewch eich collfarnu – hynny yw, eich cael yn euog o'r drosedd(au) – gallech gael eich dedfrydu ar unwaith. Gelwir y rhan fwyaf o bobl yn ôl i'r llys ar gyfer eu dedfrydu yn ddiweddarach. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'n debygol y bydd gofyn i chi weld y Gwasanaeth Prawf. Byddant yn paratoi adroddiad cyn-dedfryd. Pwrpas yr adroddiad hwn yw i ddarparu asesiad o'ch anghenion, y risg yr ydych yn ei pheri i eraill a'ch parodrwydd neu allu i newid eich ymddygiad. Mae'r adroddiad wedi ei ddylunio i gynorthwyo'r llys i ddod i benderfyniad ynghylch y ffordd orau i'ch dedfrydu.

Cyngor Adferiad:

Mae'n rhaid i chi gydymffurfio gydag amodau eich dedfryd, neu gallech fod mewn perygl o gael eich dychwelyd i'r llys ble gallech dderbyn dedfryd fwy llym.

Os byddwch yn derbyn unrhyw ddedfryd yn y llys heblaw am ddedfryd o garchar, mae'n rhaid i chi ddarganfod beth yw'r ddedfryd a'r hyn sydd ei angen i chi ei wneud nesaf. Peidiwch â bod ofn gofyn i'r tywysydd neu glerc y llys i egluro hyn i chi. Ni ddylai eich cyfreithiwr adael y llys nes eu bod wedi egluro i chi yn union beth sydd wedi digwydd i chi a'r hyn sydd angen i chi ei wneud nesaf.

Gallech dderbyn dedfryd gymunedol gyda nifer o amodau wedi'u hatodi. Golygai hyn y byddwch o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf yn y gymuned ac y byddant yn dylunio rhaglen waith i chi ymgymryd.

Prif ddedfrydau llys yw:

- Dedfryd o garchar (am y troseddau mwyaf difrifol)
- Dedfryd ohiriedig
- Dedfrydau cymunedol
- Dirwyon
- Rhyddhau
- lawndal


Os oes adroddiad seiciatryddol wedi ei gaffael sy'n nodi bod gennych gyflwr iechyd meddwl, efallai y bydd y canlyniad yn wahanol.

Pan fydd yr ynadon wedi cael rhywun sydd â salwch meddwl yn euog gallent benderfynu i osod:

Gorchymyn ysbyty: mae hwn yn cael ei adnabod fel cael eich cadw o dan adran 135 ac 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl ('sectioned') ac mae'n seiliedig ar dystiolaeth dau feddyg

Gorchymyn gwarcheidiaeth: pan mae'r llys yn eich gosod o dan warcheidiaeth yr awdurdod lleol i'ch amddiffyn chi / i amddiffyn eraill.

Rhyddhau absoliwt: pan nad yw'r llys yn cymryd unrhyw gamau gweithredu pellach yn eich erbyn (ond bydd gennych gofnod troseddol)



Yn y Carchar

Cefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a chaethiwed yn y carchar

Nid yw'r rhan fwyaf o bobl sy'n mynd i mewn i'r system cyfiawnder troseddol yn mynd i'r carchar, hyd yn oed os ydynt wedi eu cael yn euog o drosedd.

Mae Adferiad yn credu na ddylai unrhyw un sydd â salwch meddwl neu broblem caethiwed difrifol gael eu cadw'n y carchar gan fod hwn yn amgylchedd anaddas. Er hynny, dengys yr ystadegau fod gan ganran helaeth o garcharorion broblemau iechyd meddwl ac/neu gaethiwed, a llawer gyda salwch meddwl neu broblem caethiwed difrifol. Ond, noder nad yw pob carchar yn darparu gwasanaethau triniaeth a chefnogaeth ar gyfer iechyd meddwl a chaethiwed.

Cyngor Adferiad:

Mae'n hanfodol eich bod yn hysbysu'r Gwasanaeth Carchardai bod gennych salwch meddwl neu broblem caethiwed ac am unrhyw feddyginiaeth yr ydych angen ei gymryd. Rydym yn argymhell yn gryf eich bod yn ymgysylltu gymaint â phosibl gyda'r driniaeth a'r gefnogaeth a ddarperir yn y carchar.

Ar eu mynediad i'r carchar, mae carcharorion yn treulio cyfnod byr yn cael eu hasesu a'u hanwytho cyn cael eu lletya. Mae'r anwythiad yn para 1-2 wythnos fel arfer, a gallai gynnwys:

- Asesiad risg sy'n adnabod yr ardaloedd o risg
- Ataliaeth hunan-laddiad / rheoli hunan-niweidio
- Asesiad ar gyfer problemau iechyd meddwl yn cynnwys salwch meddwl difrifol ac anhwylder personoliaeth
- Sgrinio ac asesu ar gyfer camddefnydd cyffuriau ac alcohol gyda golwg ar driniaeth
- Cyfundrefnau dadwenwyno / cynnal ar gyfer cyffuriau penodol
- Imiwneiddio / brechu

Noder y gallai pob carcharor gael eu profi ar hap am gyffuriau ac alcohol neu oherwydd amheuaeth o ddefnydd neu fel rhan o asesiad risg cyn cael eu rhyddhau dros dro neu eu trosglwyddo i garchar agored.

Cofiwch nad oes unrhyw sicrwydd y byddwch yn mynd i garchar yng Nghymru – gallech fynd i Loegr. Nid oes carchardai i ferched yng Nghymru ar hyn o bryd.

Os ydych chi'n teimlo'n isel iawn gallwch ofyn i gael gweld rhywun o'r cynllun gwrandawr (gwasanaeth sydd ar gael yn y rhan fwyaf o garchardai). Mae hyn yn ymwneud â siarad gyda chyd-garcharor sydd wedi eu hyfforddi i wrando ar bobl yn y carchar sy'n profi gofid neu a allai fod yn arbennig o agored i niwed.

Cyngor Adferiad:

Os ydych chi'n teimlo'n hunanladdol, mae'n rhaid i chi adael i swyddog carchar wybod er mwyn iddynt allu eich cefnogi.



Cyn i chi fynd i mewn i'r carchar, cymerwch gamau i sicrhau eich bod yn cadw eich cartref ac yn gadael i bobl wybod ble rydych chi.

Cyngor Adferiad:

Os oes gennych unrhyw bryderon am eich gofal iechyd neu eich llety, neu unrhyw ran arall o'ch bywyd, mae'n bwysig eich bod yn gadael i'ch rheolwr troseddwr wybod er mwyn iddynt allu helpu gyda'ch adsefydliad.



Yn ystod eich amser yn y ddalfa fe ddylai fod:

- Asesu a sgrinio pellach ar drosglwyddiad rhwng carchardai
- Cyngor yn cael ei gynnis ar gynnal iechyd da, yn cynnwys iechyd meddyliol
- Cynllunio rhyddhau ac adsefydlu
- Cyngor ar gynnal cysylltiad gyda theulu a ffrindiau
- Cyngor ar gael eich rhyddhau ar drwydded (golygai bod ar drwydded eich bod yn dal i wneud dedfryd carchar ond gallwch fyw yn y gymuned yn hytrach na mewn carchar)
- Mae'r Timau Mewngymorth Iechyd Meddwl Carchardai ('MHIRT') yn gweithio o fewn y lleoliad carchar i ddarparu asesiad, gofal a thriniaeth i'r rhai hynny sy'n profi salwch meddwl difrifol. Maent yn cysylltu i'r gwasanaethau y tu allan i'r carchar. Gallai'r timau hyn helpu gyda:
 1. Cofrestru gyda meddyg teulu
 2. Atgyfeirio i driniaeth arbenigol pe bai angen hyn arnoch

Os ydych chi'n sâl iawn yn y carchar efallai y bydd angen eich trosglwyddo i'r ysbyty, uned ddiogel canolog neu ysbyty arbennig ble byddwch yn gwneud eich dedfryd. Mae'n bosibl i fynd yn ôl ac ymlaen rhwng y carchar a'r ysbyty.

Mae'r Gwasanaeth Prawf yn gweithio gyda phobl mewn carchardai sy'n gwneud eu dedfryd. Er enghraifft, efallai y bydd gofyn iddynt ysgrifennu adroddiad i'r Bwrdd Parôl i'w helpu i benderfynu os yw'n ddiogel i'ch rhyddhau ai peidio ac, os cewch eich rhyddhau, pa drefniadau sydd angen bod yn eu lle i'ch atal rhag aildroseddu ac i'ch cadw chi ac eraill yn ddiogel. Os ydych chi'n gwneud mwy na 12 mis yn y carchar bydd gennych reolwr troseddwr sydd â chyfrifoldeb cyffredinol amdanoch yn ystod eich amser o fewn y system cyfiawnder troseddol.





Rhyddhau

Cynllunio ymlaen ar gyfer eich rhyddhau

Os ydych chi'n meddwl eich bod yn dod allan o'r carchar heb y gefnogaeth yr ydych ei hangen ar gyfer eich salwch meddwl neu broblem caethiwed mae'r rhaid i chi ddweud wrth staff y carchar cyn gadael. Dylent allu darparu cefnogaeth i chi.

Po fwyaf y gallwch chi ei wneud i gynllunio ymlaen llaw cyn rhyddhau, gorau oll.

Cynghorwn eich bod, tra'n dal yn y carchar, yn gwirio bod y gwasanaethau cefnogaeth iechyd meddwl neu gaethiwed yn y carchar mewn cysylltiad â'r rhai yn y gymuned. Os mai felly y mae, rydych yn fwy tebygol o dderbyn y gwasanaethau cywir mor fuan â phosibl pan cewch eich rhyddhau.

Os nad oes gennych unman i fyw pan yn cael eich rhyddhau, mae'n hynod bwysig i ymgysylltu gyda'r gwasanaethau tai cyn i chi adael. Gwnewch ddefnydd lawn o unrhyw wasanaethau adsefydlu sydd ar gael yn y carchar a gofyn i deulu a ffrindiau am gymorth.

Cyngor Adferiad:

Yn yr adran nesaf fe ddewch o hyd i wybodaeth ar gynllunio gofal. Mae'n syniad da i edrych ar yr adran hon cyn gadael y carchar er mwyn i chi allu ystyried pa gamau ymarferol rydych angen eu cymryd cyn ac wedi eich rhyddhau.

Os ydych chi'n bwriadu hawlio budd-daliadau ar gael eich rhyddhau, dylech wneud hynny mor fuan â phosibl i osgoi oedi wrth dderbyn eich budd-daliadau.

Os byddwch yn derbyn dedfryd o lai na 12 mis cewch eich rhyddhau yn syth i'r gymuned. Ni fydd rhaid i chi weld tîm rheoli troseddwr ond efallai y byddwch yn destun cyrffiw i aros gartref (beth elwir hefyd yn 'tag'). Mae hyn yn golygu cael dyfais electronig wedi ei osod ar eich ffêr sy'n gallu dangos os ydych chi wedi gadael eich cartref yn ystod yr amseroedd pan nad ydych i fod i wneud hynny.



Os byddwch yn derbyn dedfryd o 12 mis neu fwy byddwch yn dod allan ar beth a elwir yn drwydded. Mae gwahanol fathau o drwydded a rhai, fel trwydded parôl, yn dibynnu ar hyd eich dedfryd wreiddiol. Golygai bod ar drwydded eich bod yn dal i wneud eich dedfryd ond eich bod yn gallu byw yn y gymuned yn hytrach na bod yn y carchar.

Golygai bod ar drwydded y byddwch o dan oruchwyliaeth y Gwasanaeth Prawf. Bydd yn rhaid i chi gadw eich apwyntiadau gyda'r tîm rheoli troseddwy ac i ymgymryd ag unrhyw raglen o waith y maent wedi ei dylunio ar eich cyfer. Bydd gennych reolwr troseddwy, a'u swyddogaeth hwy yw i sicrhau bod eich cynllun dedfrydu yn cael ei weithredu. Y swyddog troseddwy sydd â'r cyfrifoldeb cyffredinol amdanoch chi, ac am sicrhau bod eich anghenion yn cael eu diwallu.

Cyngor Adferiad:

Peidiwch â methu unrhyw apwyntiadau gyda'ch swyddog troseddwy (oni bai bod gennych nodyn gan eich meddyg teulu). Os ydych yn methu apwyntiadau gallech gael eich dwyn yn ôl i'r llys, ac fe allech fynd i'r carchar.

Dylai'r rhaglen o waith sydd wedi ei dylunio ar eich cyfer ystyried eich anghenion iechyd meddwl ac mae'n bwysig eich bod yn cadw i'r rhaglen oherwydd y bydd wedi ei dylunio i'ch cadw allan o helynt yn y dyfodol.

Cyngor Adferiad:

Mae'n hanfodol eich bod yn onest gyda'ch rheolwr troseddwy ynghylch eich anghenion iechyd meddwl.



Adferiad

Llwybrau i gyflawni adferiad tymor-hir

Credwn fod model o gefnogaeth a gofal sy'n anelu at adferiad yn hanfodol i bawb sydd â salwch meddwl neu broblem caethiwed, yn cynnwys y rhai hynny sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol.



1. Grymuso a hunan-reolaeth

Golygai grymuso ymarfer hawliau a chyfrifoldebau i wneud y dewisiadau cywir am fywyd. Golygai hunan-reolaeth gymryd y camau gweithredu sydd eu hangen i fyw bywyd sy'n seiliedig ar y dewisiadau hynny.

O fewn y system cyfiawnder troseddol ac o fewn ysbyty mae cyfyngiadau sylweddol ar allu person i wneud newidiadau, wrth gwrs (yn enwedig yn y carchar). Ond, mae eu hadferiad yn dal i ddibynnu ar ddatblygu eu grymuso a'u hunan-reolaeth.

2. Ymrwymiad i wneud cynnydd

Mae adferiad yn dibynnol ar gymryd camau gweithredol i wella bywyd. Mae'n hanfodol i gytuno ac i weithredu ar gynllun cam wrth gam sydd wedi ei ffocysu ar nod. Y cynllun allweddol ar gyfer pobl sydd â salwch meddwl difrifol yw'r cynllun gofal gofynnol o dan y Care Programme Approach (CPA).

Mae'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol a'r Gwasanaeth Carchardai yn rhan o reoli troseddwr o'r foment mae person yn mynd i mewn i'r carchar i'r adeg maent yn gorffen eu dedfryd yn y gymuned o dan drwydded. Mae'r ddwy asiantaeth yn defnyddio'r System Asesu Troseddwr (a adnabyddir fel 'OASys') i asesu risg ac i ddatblygu cynllun i leihau aildroseddu.

3. 'Ymagwedd Person Cyfan'

Mae yna fwy i adferiad na meddyginiaeth neu therapïau eraill sy'n delio'n uniongyrchol gyda symptomau. Mae adferiad angen ymagwedd "Person Cyfan" (rhywbeth a elwir yn ymagwedd 'gyfannol' neu 'holistig' ar adegau). Golygai hyn fynd i'r afael â holl agweddau allweddol bywyd sydd, gyda'i gilydd, yn cyfrannu i lesiant. Trwy osod nodau ym mhob ardal o fywyd gall pobl fynd ati gyda'u hadferiad mewn modd mwy cynhwysfawr.


Isod rydym wedi gosod allan naw ardal allweddol yr Ymagwedd Person Cyfan.



9 DIMENSIWN LLESIANT



Emosiynol



Ysbrydol



Diwylliannol



Deallusol



Cyllidol



Amgylcheddol



Galwedigaethol



Corfforol



Cymdeithasol

Mae cleientiaid Adferiad wedi darganfod bod adferiad yn dibynnu ar y cydrannau yn y diagram UCHOD.

Cysylltiadau Defnyddiol

FFOPS – Families & Friends of Prisoners Services (De Cymru)

Cefnogaeth a chyngor i deuluoedd a ffrindiau carcharorion.

Ffôn: 01792 458645

Community Legal Advice Directory

Mae'r adnodd ar-lein hwn yn galluogi pobl i chwilio am gyfreithiwr sy'n arbenigo mewn materion iechyd meddwl.

Gwefan: www.communitylegaladvice.org.uk

Comisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu ('IPCC')

Y corff sy'n goruchwyllo cwynion yn erbyn swyddogion heddlu gweithredol yng Nghymru a Lloegr.

Ffôn: 08453 002002
Gwefan: www.ipcc.gov.uk

NACRO Cymru

Yn darparu amrywiaeth o wasanaethau ar gyfer cyn-garcharorion.

Ffôn: 01248 354602
Gwefan: www.nacro.org.uk/cymru

Mae Llinell Adsefydlu Nacro yn cynnig cyngor am ddim i gyn-garcharorion, carcharorion sy'n gwneud eu dedfryd, eu teuluoedd a'u ffrindiau.

Ffôn: 07901 006107

Citizens Advice Bureau

Y prif sefydlaidd yn y Deyrnas Unedig sy'n cynnig cyngor cyffredinol a chyfreithiol am ddim.

Gwefan: www.citizensadvice.org.uk
Ffôn: Gweler y llyfr ffôn lleol

Criminal Defence Service (CDS)

Mae'r CDS yn darparu cyngor, cymorth a chynrychiolaeth cyfreithiol, i bobl sy'n cael eu hymchwilio gan yr heddlu neu'n wynebu cyhuddiadau cyfreithiol.


Ffôn: 0114 7496 0170
Gwefan: www.legalservices.gov.uk/criminal neu www.clsdirect.org.uk

Gwasanaeth Eryl y Goron ('CPS')

Y corff Llywodraethol sy'n gyfrifol am erlyniadau troseddol yng Nghymru a Lloegr.

Dyfed Powys, Ffôn: 01267 242100
Gwent, Ffôn: 01633 261100
Gogledd Cymru, Ffôn: 01978 346000
De Cymru, Ffôn: 02920 803902

Gwefan: www.cps.gov.uk



Amdan Adferiad

Elusen flaenllaw sy'n darparu cefnogaeth ar gyfer ystod o anghenion

Mae Adferiad yn elusen a arweinir gan ei haelodau sy'n darparu cymorth a chefnogaeth ar gyfer pobl gydag anghenion iechyd meddwl, caethiwed, ac anghenion cymhleth a rhai sy'n cyd-ddigwydd, i uchafu eu potensial ac i gyflawni gwell ansawdd bywyd. Mae ein staff arbenigol a'n gwirfoddolwyr yn defnyddio ymagwedd person cyfan i helpu pobl ym mhob ardal o'u bywyd er mwyn iddynt allu byw gydag urddas ac mor annibynnol â phosibl. Rydym yn bobl sy'n cadarnhau hawliau o fewn sefydliad sy'n cadarnhau hawliau.

Mae ein cefnogaeth yn cynnwys ystod o wasanaethau lleol a chenedlaethol ar gyfer ein cleientiaid, gofalwyr, a theuluoedd. Rydym yn cynnal gwasanaethau yn y 22 sir yng Nghymru ac yn Swydd Gaerhirfryn.

Rydym hefyd yn rhoi llais in cleientiaid yn genedlaethol ac yn lleol ac yn ymgyrchu ochr yn ochr gyda nhw i ddiwygio polisiau a deddfau, i wella gwasanaethau ac i frwydro yn erbyn gwahaniaethu.

Mae gennym dros 50 mlynedd o wybodaeth a phrofiad o gefnogi'r rhai hynny sydd ag anghenion cymhleth.



Adferiad



Tŷ Dafydd Alun, 36 Princes Drive, Bae
Colwyn, Conwy, LL29 8LA



01792 816600



info@adferiad.org



www.adferiad.org

